OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

***Datganiadau achos a darpariaeth atodol***

**Newid yr awdurdod lleol mewn apêl**

**23.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys at ddibenion apêl os, ar ôl y dyddiad y gwnaed y penderfyniad a herir gan yr awdurdod lleol, nad yw'r awdurdod lleol bellach yn gyfrifol am y plentyn o fewn ystyr adran 321(3) o Ddeddf 1996 ("yr hen awdurdod").

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, caiff y Llywydd orchymyn, at holl ddibenion yr apêl ac wrth gael tystiolaeth bod y rheoliad hwn yn gymwys, y disodlir enw'r hen awdurdod gan enw'r awdurdod sy'n gyfrifol am y plentyn o fewn ystyr adran 321(3) o Ddeddf 1996 ("yr awdurdod newydd").

(3) Rhaid rhoi cyfle i'r hen awdurdod, yr awdurdod newydd a'r apelydd gael eu clywed cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (2).

(4) Pan wneir gorchymyn o dan baragraff (2)—

(a) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r hen awdurdod, yr awdurdod newydd a'r apelydd;

(b) ni fydd yr hen awdurdod bellach yn barti yn yr apêl;

(c) bydd yr awdurdod newydd yn dod yn barti yn yr apêl;

(ch) bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r awdurdod newydd wedi gwneud y penderfyniad a herir;

(d) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copïau at yr awdurdod newydd o'r holl ddogfennau a thystiolaeth ysgrifenedig a gafodd y Tribiwnlys gan yr apelydd a chan yr hen awdurdod mewn perthynas â'r apêl;

(dd) bydd y weithdrefn ar gyfer penderfynu'r apêl yn ailgychwyn, a rheoliad 15 yn gymwys fel pe bai'r dogfennau a'r dystiolaeth ysgrifenedig a anfonwyd yn unol ag is-baragraff (d) yn rhan o'r cais apêl y cyfeirir ato yn rheoliad 15(1).